Recriwtio ein Myfyrwyr a'n Graddedigion

Prifysgol Abertawe
Swansea University




# ASTUDIAETH ACHOS – LLEOLIADAU GWAITH I FYFYRWYR

## Canolfan Therapi Sglerosis Ymledol (MS) De Cymru

# Doniau sy'n Ysbrydoli

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## Cefndir

Cysylltodd Canolfan Therapi MS De Cymru â Phrifysgol Abertawe i ofyn am gymorth wrth lenwi lleoliad gwaith tymor byr dros yr haf.

Nod Canolfan Therapi MS De Cymru yw darparu canolfan sy'n cynnig yr holl gyfleusterau angenrheidiol i helpu dioddefwyr i reoli eu salwch a byw bywyd mor normal â phosib.

## Yr Her

Roedd Canolfan Therapi MS De Cymru am ddarparu cymorth ychwanegol i'r tîm sy'n gyfrifol am godi arian ar gyfer ei chanolfan newydd; lleoliad gwaith i fyfyriwr a fyddai'n ymchwilio i ffrydiau refeniw posib, nodi'r ffynonellau mwyaf addas a gwneud y ceisiadau.

## Mynd i'r Afael â'r Her

Aeth tîm Parth Cyflogaeth Prifysgol Abertawe ati i ymchwilio i'r prosiect, gan nodi'r angen am rywun i ysgrifennu ceisiadau elusennol, a gweithiodd gyda Therapi MS De Cymru i ddeall gofynion y rôl a'r anghenion o ran sgiliau a phrofiad.

Helpodd y tîm i lunio'r hysbyseb, gan ei hyrwyddo drwy fwrdd swyddi'r Parth Cyflogaeth ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Pan ddaeth y ceisiadau i law, cynorthwyodd y tîm wrth lunio rhestr fer o ymgeiswyr a helpodd i gynnal y cyfweliadau.

Yn sgil cyfweliad llwyddiannus, penodwyd Rebecca Elms, myfyriwr israddedig sy'n astudio am Faglor yn y Celfyddydau mewn Llenyddiaeth Saesneg a Gwareiddiad Clasurol, i'r lleoliad gwaith.

## Canlyniadau Llwyddiannus

Yn ogystal ag ychwanegu'n sylweddol at ei datblygiad personol ei hun, gwnaeth Rebecca wahaniaeth enfawr i'r sefydliad. Yn ystod ei chyfnod byr yn gweithio i Ganolfan Therapi MS De Cymru, cyflwynodd Rebecca nifer o geisiadau llwyddiannus am gyllid a sicrhaodd £20,000 o arian ychwanegol i'r elusen.

“Roedd gweithio ar gyfer y Ganolfan Therapi MS yn brofiad gwych. Roedd y staff yn hyfryd, ac roedd Christine, y rheolwr, yn gefnogol ac yn gymwynasgar iawn drwy gydol fy lleoliad gwaith. Roeddwn i'n ysgrifennwr ceisiadau elusennol ar gyfer y ganolfan, felly treuliais i fy amser yn chwilio am ffynonellau cyllid ac yn gwneud ceisiadau am arian tuag at y ganolfan newydd. Ces i brofiad o ddyletswyddau gweinyddol yn ogystal â chyfle i ddefnyddio'r sgiliau ysgrifennu rwyf wedi'u dysgu ar fy ngradd. Roedd yn brofiad gwych a fyddwn i ddim wedi cael y cyfle heb dîm y Parth Cyflogaeth.”

*Rebecca Elms,*
*BA Llenyddiaeth Saesneg*
*a Gwareiddiad Clasurol*

Os credwch y gallai'ch sefydliad chi elwa o gynnig lleoliad gwaith i fyfyriwr, cysylltwch â ni

01792 606060
business.enquiries@abertawe.ac.uk
**www.abertawe.ac.uk/dawn**